# CYLCHLYTHYR YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED 2022



ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

# 2022

Croeso i Gylchlythyr 2022 Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Dechreuom arni i greu Cylchlythyr y llynedd er mwyn rhoi'r diweddaraf i chi gyd am ein gwaith, ac roedd yn llwyddiant yn sicr. Gobeithiwn i chi gyd gael blwyddyn dda, fel ninnau…

Eleni, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gyflogi nifer o aelodau staff dros dro yn sgil y pentwr mawr o waith oedd gennym i'w wneud. Cafodd nifer o aelodau staff newydd eu cyflogi yn ystod ein gwaith ar gloddiadau gwelliannau ffordd yr A40, Ffrierdy Hwlffordd a Chastell Hwlffordd.

O ganlyniad, cawsom ychydig o newidiadau staff eleni. Fe wnaeth Emma Jones, sydd wedi bod gyda'r Ymddiriedolaeth ers nifer o flynyddoedd, adael i fynd i faes newydd, a dymunwn y gorau iddi i'r dyfodol; byddwn yn ei cholli'n fawr.

Ym mis Hydref, ymunodd Charlie Enright, o Wasanaethau Maes Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD) yn flaenorol, ag adran Rheoli Treftadaeth yr Ymddiriedolaeth, ynghyd ag Erin Lloyd ac Alex Powell. Bydd y tri yn gweithio ar y llu o Brosiectau Rheoli Treftadaeth sydd gennym ar hyn o bryd.

Yn Ebrill 2022, cafodd y prosiect Ucheldiroedd Arfordirol: Treftadaeth a Thwristiaeth ei lansio'n swyddogol. Mae hwn yn brosiect partneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Choleg Prifysgol Dulyn. Dechreuodd Jessica Domiczew ei rôl fel Swyddog y Prosiect ar gyfer elfen YAD y prosiect.

Mae Helen Gant, sy'n wirfoddolwr rheolaidd gydag YAD, wedi ymuno â'r Ymddiriedolaeth hefyd er mwyn cwblhau ein prosiect ffermydd hanesyddol, ac i gynorthwyo â chofnodi canfyddiadau ar gyfer y Cynllun Hynafiaethau Cludadwy.

Fe wnaeth yr archaeolegydd Rheoli Treftadaeth, Jenna Smith, groesawu newydd-ddyfodiad yn Ionawr 2023, a dymunwn y gorau i'r teulu newydd.

Ar ôl blynyddoedd maith gyda'r Ymddiriedolaeth, mae Hubert Wilson yn ymddeol! Diolchwn iddo am ei holl flynyddoedd o waith caled ac ymroddedig i'r Ymddiriedolaeth, a gobeithio y gwnaiff fwynhau ei amser rhydd newydd.



Gwirfoddolwyr yn gweithio'n galed yn yr Haul yng

Nghaer Bentir Porth y Rhaw

# Ein Flwyddyn Mewn Rhifau



Ymgymerwyd â dros **113** o Brosiectau Archaeolegol.




Fel cynghorwyr i'n hawdurdodau cynllun lleol, rydym wedi prosesu ac asesu dros **4000** o Geisiadau Cynllunio



Rydym wedi ychwanegu dros **2000** o gofnodion craidd newydd a dros **100** o gofnodion digwyddiadau newydd at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol



Rydym wedi cael dros **100** o ymholiadau ynglŷn â'r Amgylchedd Hanesyddol, neu ddarganfyddiadau archaeolegol



Rydym wedi ychwanegu dros **90** o ddarganfyddiadau at y Gronfa Ddata Hynafiaethau Cludadwy



Rhoddodd dros **170** o wirfoddolwyr fwy na 1100 o ddiwrnodau o'u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch o galon i chi gyd!



**Mae YAD yn cynnal arolwg cerdded drosodd mewn ardal o weithfeydd glo cynnar ym Mannau Brycheiniog**



# Ffrierdy Hwlffordd

Gwelodd mis Hydref 2022 ddiwedd cloddiad archaeolegol wyth mis ar safle hen Siop Ocky White yng nghanol Hwlffordd. Roedd ffowndri haearn ar y safle yn y 19$^{eg}$ ganrif, ond o dan hyn, datgelwyd tystiolaeth ar gyfer mynwent ganoloesol yn gysylltiedig â Ffrierdy Dominiciaid St Saviours, a sefydlwyd yng nghanol y 13$^{eg}$ ganrif, na chanfuwyd ei leoliad yn fanwl gywir erioed.

Fe wnaeth tîm mawr o archaeolegwyr gloddio olion dros 300 o gladdedigaethau yn ogystal â gweddillion yr hyn yr awgrymwn oedd yn gyfnod cyntaf eglwys y ffrierdy a ddymchwelwyd ar ddiwedd y 1300au pan alluogodd grantiau adeiladu eglwys fwy a chyfadeiladau mynachaidd i'r de a'r gorllewin. Daeth ardal cyfnod cynharach yr eglwys yn fynwent wedyn, yn gwasanaethu'r gymuned leol, a ddefnyddiwyd i mewn i'r 1600au. Yn y pen draw, gorchuddiwyd y fynwent hon gyda gweddillion o ddymchwel yr eglwys ddiweddarach i'r de.

Roedd y claddedigaethau yn cynnwys plant, a oedd yn adlewyrchiad o gyfradd uchel marwolaethau babanod ar y pryd, ond roeddent hefyd yn cynnwys oedolion gwryw a benyw, gan ddangos y defnydd o'r fynwent gan y trefolion yn gyffredinol.

Fodd bynnag, yn olion nifer o gladdgelloedd cerrig a oroesodd ym mhen dwyreiniol eglwys gynnar y ffrierdy, roedd nifer o gladdedigaethau, gan gynnwys un yn y cornel gogledd ddwyreiniol a oedd â llestr a phlât piwter wedi'u gosod yn nwylo'r sawl a gladdwyd; credwn fod hyn yn cynrychioli caregl a phaten, gan ddynodi mai claddfa offeiriad oedd hwn.

Ym mhen gorllewinol yr ardal gloddio, datgelwyd wal fawr yn rhedeg o'r gogledd i'r de gyda sylfeini anferth, ac i'r gorllewin roedd grŵp o gladdfeydd wedi'u pentyrru'n ofalus gyda'u traed wedi'u gosod yn union yn erbyn y wal. Mae cymariaethau â safleoedd tebyg yn awgrymu bod hyn yn arfer cyffredin o fewn rhodfa'r cloestr a oedd yn aml yn gorwedd i'r gorllewin a'r de o'r eglwys.

Roedd tystiolaeth o nodweddion a oedd yn rhagddyddio'r ffrierdy yn cynnwys nifer o byllau tân ac odyn bosibl.

Cafodd yr olion ysgerbydol, a'r holl ddarganfyddiadau eraill, gan gynnwys teils llawr canoloesol wedi'u haddurno'n hyfryd a fyddai wedi dod o eglwys y ffrierdy, eu glanhau mewn siop segur gyfagos gan lu o wirfoddolwyr yn gweithio ar y cyd â staff yr Ymddiriedolaeth. Fe wnaeth y prosiect ennyn diddordeb aruthrol yn Hwlffordd a'r ardal o amgylch. Ymwelodd llawer o bobl â'r siop a oedd ar agor i'r cyhoedd bob dydd i'w galluogi i weld a chael profiad o'r ochr hon o'r broses gloddio.

Bydd yr holl olion ysgerbydol yn cael eu dadansoddi gan Brifysgol Caerdydd, gan roi cipolygon i'r modd yr oedd pobl yn yr oes hon yn byw a marw, eu galwedigaethau, a hyd yn oed o ble'r oeddent yn dod, cyn i'r cyfan gael eu hail-gladdu mewn daear gysegredig.

Hwn yw'r prif gloddiad archaeolegol cyntaf o fewn ffiniau tref ganoloesol Hwlffordd, ac mae'n gyfle unigryw i gasglu gwybodaeth am ddatblygiad parhaus y dref ffyniannus hon drwy'r oesoedd, a'i chysylltiad hanfodol gydag Afon Cleddau Wen.

John Weaver CONTRACTORS

Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council



Roedd safle'r cloddiad rhwng dau adeilad.

Daethpwyd o hyd i 307 o weddillion sgerbydol





Rhai o wirfoddolwyr llawer yn glanhau'r darganfyddiadau.

Enghreifftiau o rai o'r teils llawr Canoloesol.





Darn gwyddbwyll Canoloesol. Mae wedi'i wneud o fuchudd ac mae'n cynrychioli Esgob.

Mae wedi'i addurno ag addurniadau llinellol, a dot a chylch.



# Caer Bentir Porth y Rhaw

Roedd mis Awst 2022 yn nodi'r hyn mae'n debyg yw'r tymor cloddio olaf yng nghaer bentir Oes Haearn Porth y Rhaw yn Sir Benfro. Ariannwyd y cloddiad saith wythnos hwn gan Cadw gyda chyfraniadau hael ychwanegol gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Nineveh a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Hwn oedd y trydydd tymor cloddio yn y blynyddoedd diwethaf. Canolbwyntiodd tymhorau blaenorol ar y fynedfa a'r ffordd yn arwain i mewn i'r gaer. Roedd cloddiad eleni yn canolbwyntio ar dŷ crwn cerrig mawr a ddatgelwyd yn rhannol gan gloddiadau Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn y 1990au.

Roedd y tŷ crwn cerrig yn gorwedd yn uniongyrchol i'r de o'r fynedfa a chredir ei fod yn dyddio i'r cyfnod Brythonaidd-Rufeinig (OC 43-410). Roedd gan y tŷ crwn ddwy fynedfa, mynedfa drawiadol i'r blaen, gyda charreg trothwy anferth yn wynebu'r fynedfa i'r gaer, a mynedfa lai i'r cefn. Cafodd ei waliau cerrig crwn, 1m o led, eu hadeiladu o glogfeini mawr ac roeddent wedi'u terasu'n rhannol i mewn i'r llethr. Gan fod â diamedr o 12 metr, mae ymhlith y tai crwn mwyaf a gloddiwyd yn ddiweddar yng Nghymru. Oddi mewn, roedd ganddo ddraen wedi'i leinio â cherrig a oedd yn troi o amgylch ymyl y wal fewnol cyn mynd allan o dan y wal. Yn ystod ei oes, mae'n ymddangos bod y tŷ crwn wedi'i ailadeiladu neu ei adnewyddu sawl gwaith.

Er syndod, datgelodd y cloddiad nad oedd y tŷ crwn, mewn gwirionedd, yn dŷ yn yr ystyr domestig; yn lle hynny, roedd yn ymddangos fel rhyw fath o ganolfan grefft yn ymwneud â chynhyrchu metel. Yn hytrach nag aelwyd ganolog fawr, roedd ganddo gymaint ag 14 o aelwydydd gofannu llai, gydag eingionau cerrig cysylltiedig ar gyfer gweithio metel yn aml.

Yn yr ardal o amgylch y tŷ crwn cerrig, roedd trwch o nodweddion cynharach. Roedd y rhain yn cynnwys nifer o dyllau pyst a gylïau draenio o adeileddau cynharach yr Oes Haearn, gan gynnwys tai crwn cynharach. Roedd darganfyddiadau o'r cloddiad yn cynnwys gleiniau gwydr, gwydr gwastraff, sidelli gwerthyd, crochenwaith Rhufeinig, a llawer iawn o wastraff a slag gweithio metel fferrus ac anfferrus.



*Olion y Tŷ crwn Brythonaidd-Rufeinig ym Mhorth y Rhaw.*



**Mae Gwirfoddolwr wedi darganfod sidell carreg.**

**Ymweliad gan Dawn Bowden, y Dirprwy Weinidog Celfyddydau a Chwaraeon.**






**Lluniau o'r awyr o'r safle a dynnwyd gan Toby Driver, o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel rhan o'r Prosiect CHERISH**







**Roedd rhai o’r darganfyddiadau eleni yn cynnwys glain gwydr glas, darnau o grochenwaith ac ymyl Mortarium gyda stamp creawdwr**





# Llanddewi Felffre—A40

Roedd yn ofynnol gwneud gwaith archaeolegol yn ystod gwaith uwchraddio cefnffordd yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Chroesffordd Maencoch, Sir Benfro. O fis Tachwedd 2021 i Fehefin 2022, bu tîm o naw archaeolegydd yn cloddio toreth o nodweddion archaeolegol yng ngham cyntaf y gwaith maes.

I gychwyn, canolbwyntiodd y gwaith ar glostir petryalog cymhleth a ddiffiniwyd gan gyfnodau o ffosydd palisâd. Yn nodweddiadol, ffens neu wal amddiffynnol wedi'u gwneud o stanciau pren, neu foncyffion coed, yw palisâd. O fewn y clostir allanol ceir clostir/adeiledd petryalog llai, a ddiffiniwyd gan ffens palisâd ar un adeg hefyd.



Chwith: *Ffotograff o'r awyr o'r cymhlyg clostiroedd.*

Dde: *Ffotograff o'r awyr yn dangos manylion tyllau stanciau o fewn ffos palisâd fwy y clostir.*



GRIFFITHS civil engineering and construction

Llywodraeth Cymru Welsh Government

LANDSKER Archaeology

Undeb Ewropeaidd European Union · Llywodraeth Cymru Welsh Government · Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop · European Regional Development Fund

Mae dehongliadau o’r olion hyn yn cynnwys tŷ gyda chlostir amgylchynol neu gorfflan yn dyddio o ran gynharaf y cyfnod Neolithig, rhyw 6000 o flynyddoedd cyn y presennol. Mae’r ddau yn fathau prin eithriadol o olion archaeolegol, ac ychydig iawn o enghreifftiau sydd wedi’u cofnodi yng ngorllewin Cymru. Ni ellir gorbwysleisio gymaint y bydd ein gwybodaeth am y cyfnod hwn yn gwella yn sgil y cloddiadau presennol.

Rhyw 100m i’r dwyrain o’r cymhlyg clostiroedd, nodwyd a chloddiwyd o leiaf 14 o byllau Neolithig. Er eu bod wedi’u byrhau’n drwm gan aredig, roedd y pyllau bas yn cynnwys amryw ddarganfyddiadau. Roedd un ar ddeg o byllau yn cynnwys crochenwaith a oedd yn dyddio i’r cyfnod Neolithig cynnar yn ôl pob golwg, er y gallai’r dynodiad newid pan fydd y casgliad cyfan wedi’i astudio. Yn ogystal, roedd y pyllau’n cynnwys fflochiau fflint, darnau o fwyelli carreg, crisialau cwarts, cerigos, a dyddodion plisg cyll llosgedig, sy’n argoeli’n dda ar gyfer dadansoddiad amgylcheddol a dyddio radiocarbon pellach.

Dde: *Darn o grochenwaith o bwll Neolithig.*



Mewn cyferbyniad, roedd tri phwll arall yn dyddio i’r Oes Efydd mae’n debyg, ac yn cynnwys yr hyn a gredwn a allai fod yn gerrig ‘clustog’, sef cerrig bach siâp sgwâr gyda chorneli crwn a ddefnyddir mewn gwaith metel. Mae’n ymddangos bod y cerrig wedi’u gwneud o siâl lleol. Mae un garreg wedi’i thorri’n ddau, mae un arall yn dangos tystiolaeth o addurn crafedig posibl, ac mae pob un ohonynt yn dangos tystiolaeth eu bod wedi’u siapio. Mae’r rhain yn wrthrychau prin eithriadol, a chredwn mai dyma’r cyntaf i’w canfod yng Nghymru. Mae ail gyfnod cloddio wedi dechrau erbyn hyn.



Chwith: *Enghraifft o ‘garreg glustog’ bosibl.*



Mae Staff YAD yn gweithio'n galed yn amlygu nodweddion palisadau yn y lloc





Mae'r llun uchod yn dangos nifer o dyllau post wedi'u cloddio ac yn isod, pen bwyell carreg wedi torri a ddarganfuwyd ar y safle





# Castell Coety — Pen-y-bont ar Ogwr

Daeth y prosiect hirfaith hwn i derfyn ar ôl cwblhau prosiect cadwraeth dwy flynedd o hyd a chyflwyno adroddiad arolwg adeiladau drafft ym mis Medi. Roedd y castell yn tarddu o ddechrau'r 12fed ganrif, gydag olion gwaith maen yn sefyll o bedwar prif gyfnod, y cynharaf yn llenfur a gorthwr integredig. Gwelodd y castell ddatblygu mawr yn ystod y 14eg, sef codi uchder y llenfur, ailfodelu'r gorthwr a'r porthdy mewnol, ychwanegu rhes ddomestig eang o fewn y cwrt mewnol, ac ailadeiladu amddiffynfeydd y cwrt allanol mewn cerrig. Gwelodd ddechrau'r 15fed ganrif gyfnod o ailadeiladu yn dilyn gwarchae niweidiol gan Owain Glyndŵr yn 1404-5, ynghyd ag estyniad i eglwys y castell. Daeth y cyfnod olaf o waith mawr yn y cyfnod Tuduraidd, gyda gwaith adnewyddu helaeth yn yr ardaloedd domestig o fewn y cwrt mewnol, codi uchder y rhes ddomestig a'r gorthwr. Arweiniodd perchnogion absennol o'r 17eg ymlaen at ei ddirywiad graddol, gan fynd i berchnogaeth y Weinyddiaeth Waith o'r 1930au, ac i Cadw yn y pen draw. Cynhaliodd YAD raglen archaeolegol o gofnodi adeiladau hanesyddol mewn cysylltiad â'r gwaith adnewyddu, a oedd yn cynnwys gwaith ailbwyntio ac atgyweiriadau i waliau a chadwraeth cerrig nadd. Roedd y golygfeydd yn rhyfeddol!



Edrychwch am y delwedd Sketchfab ffantastig yma—

https://sketchfab.com/aerial-cam/collections/coity-castle-ae23cdaa6e514f2f997f4bdbe637c328

John Weaver CONTRACTORS

Cadw

# Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd Hanesyddol

Mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu teimlo gan gymunedau yng Nghymru, gyda digwyddiadau tywydd mwy difrifol yn cael canlyniadau pellgyrhaeddol ar fywydau a bywoliaethau a'n nodweddion a thirweddau hanesyddol. Dros y deng mlynedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gweithio i asesu'r materion sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan gael dealltwriaeth o'r risgiau i asedau hanesyddol gwahanol mewn lleoliadau gwahanol, a help i lywio gwaith i liniaru colli neu ddifrodi ein treftadaeth.

Dechreuodd ein hymchwil gyda datblygu ymagwedd strategol ar gyfer asesu effaith newid hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys nodi ac asesu sensitifrwydd asedau hanesyddol i newid hinsawdd i seilio asesiad risg arno, ac edrych ar debygolrwydd ac effaith y risgiau dynodedig: Asesu effaith bosibl newid hinsawdd ar amgylchedd hanesyddol Cymru, https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/climatechange.pdf

Mae grŵp o gynrychiolwyr o'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru wedi ffurfio Is-grŵp Newid Hinsawdd ac mae'n gyfrifol am asesu ac adrodd ar sut dylai'r sector fynd i'r afael â her newid hinsawdd. Mae Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru: Cynllun Addasu Sector yn ddogfen strategol, lefel uchel, gyda'r nod o annod cydweithio a gweithredu i gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth, cynyddu capasiti a meithrin gwydnwch:https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/climatechangesectoradaptation.pdf

Yn fwy diweddar, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflawni prosiect peilot gan ddefnyddio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) fel sail ar gyfer nodi a deall bygythiadau ac effeithiau newid hinsawdd ar raddfa genedlaethol, rhanbarthol a safle; Prosiect Peilot Addasu i Newid Hinsawdd 2020-21:https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/climatechangeadaptationpilot2020-21.pdf



Bont Llawhaden

Gan gydnabod bod cyswllt anorfod rhwng newid hinsawdd a bioamrywiaeth, mae gwaith i wella iechyd ein hafonydd wedi'i gwneud hi'n angenrheidiol weithiau i waredu neu addasu nodweddion hanesyddol fel coredau. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n gweithio ar gofnodi nodweddion hanesyddol mewn afonydd ac amgylcheddau torlannol i sicrhau y gallwn ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor gorau cyn cynlluniau o'r fath: Afonydd ac Amgylcheddau Glannau Afon 2021-22 [https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/climatechangerivers2021-22.pdf](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/climatechangerivers2021-22.pdf)

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn archwilio a chofnodi safleoedd pwysig lle mae newid hinsawdd eisoes yn gwneud niwed cyn i'w cyfrinachau gael eu colli am byth. Mae'r rhain yn cynnwys Llanismel, Capel Sant Padrig a Phorth y Rhaw, sydd wedi datgelu gwybodaeth newydd anhygoel am ein gorffennol, ac wedi rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr gyfranogi yn y broses gyfan o'r dechrau i'r diwedd, ac i ymwelwyr arsylwi safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu cofnodi – efallai y byddwch wedi ymweld ag un ohonyn nhw, neu hyd yn oed wedi gweithio ar un ohonynt? Capel Sant Padrig, Caer Bentir Porth y Rhaw a Phentref Canoloesol Llanismel.

[https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/stpatricksfinalreport2022.pdf](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/stpatricksfinalreport2022.pdf)

[https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/discovery/projects/porth-y-rhaw-coastal-promontory-fort/](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/discovery/projects/porth-y-rhaw-coastal-promontory-fort/)

[https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/stishmaelpublishedreport.pdf](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/stishmaelpublishedreport.pdf)



Cored i lawr yr afon o Bont Llandeilo

# Newyddion

Mae adroddiad terfynol cloddiad Capel Sant Padrig wedi'i gwblhau o'r diwedd! Hoffwn ddiolch i'r holl gyfranwyr am eu gwaith cael i gwblhau'r adroddiad hwn, ac i'n holl wirfoddolwyr ymroddedig a fu'n gweithio ar y prosiect hwn dros y blynyddoedd. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau darllen yr adroddiad y gellir ei weld yma -

https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/wp-content/uploads/stpatricksfinalreport2021.pdf



EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Cláir Chistí Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014–2020
Cómhaoinithe ag Rialtas na hÉireann agus ag an Aontas Eorpach
Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park
Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
The University Of Sheffield.
NINEVEH Charitable Trust
Cyngor Sir Penfro · Pembrokeshire County Council

Yn 2022, cawsom ni gadarnhad bod prosiect ym Mhen Dinas, Aberystwyth yn mynd yn ei flaen!

Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed mewn partneriaeth â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru wedi cael grant gwerth £143,243 gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ogystal â chyllid ychwanegol gan Cadw ar gyfer prosiect cymunedol dwy flynedd i ddysgu mwy am y fryngaer sydd mor amlwg uwchlaw tref Aberystwyth a'i chymydog, Penparcau.

Er i'r safle gael ei gloddio yn y 1930au, mae rhyw ddirgelwch yn perthyn o hyd i'r fryngaer drawiadol hon, fel cymaint o rai eraill ar draws bryniau Cymru. Ai er mwyn dangos grym y gymuned leol yn yr Oes Haearn y cafodd y fryngaer ei hadeiladu, neu a oedd iddi ddiben ymarferol fel lle i gadw gwartheg a grawn yn ddiogel? Beth yr oedd y bobl a oedd yn byw yma'n ei wneud ar y safle hwn ar y bryn?

Bydd y prosiect yn ceisio cael atebion i gwestiynau tebyg i'r rhain, gan weithio gydag aelodau o Fforwm Penparcau a grwpiau cymunedol eraill. Mae'r prosiect dwy flynedd yn cynnwys arolwg geoffisegol a gwaith cloddio a fydd yn taflu goleuni ar y modd yr oedd ein cyndeidiau'n defnyddio'r safle.

Cafodd y syniad ar gyfer y prosiect ei gynnig gan aelodau o'r gymuned leol sydd wedi mynegi awydd i gael gwybod mwy am y fryngaer a'i gweld yn cael ei chynnal a'i chadw yn well. Mae amryw weithgareddau cymunedol wedi'u cynllunio, a fydd yn cynnwys gweithio gydag arbenigwyr lleol ar fywyd gwyllt er mwyn clirio rhedyn ac eithin a gwella'r safle ar y bryn ar gyfer y planhigion, yr adar, yr anifeiliaid di-asgwrn-cefn a'r pryfed prin sy'n byw ym Mhen Dinas.

Bydd gwneud ffilmiau, creu crochenwaith, prosiectau ysgolion, teithiau tywys a gweithgareddau adrodd straeon i gyd yn rhan o'r prosiect cyffrous hwn, a phenllanw'r cyfan fydd gŵyl ar benwythnos i ddangos canlyniadau'r holl weithgareddau hyn. Ym mis Rhagfyr 2022 penodwyd Swyddog Allgymorth ar ran y Comisiwn Brenhinol a'r gobaith yw y bydd cam cyntaf ein gwaith yn dechrau yng Ngwanwyn 2023!

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Cadw
Llywodraeth Cymru Welsh Government
CBHC RCAHMW Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales
ymddiriedolaeth archaeolegol DYFED archaeological trust

